Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd
Grand Rapids, Mehefin 2010

Ym mis Mehefin eleni, cefais y fraint fawr o fod yn un o ddau gynrychiolydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yng Nghynhadledd Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd (*World Communion of Reformed Churches*). Yr Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parchedig Geraint Tudur, oedd y cynrychiolydd arall. 'Roedd cael fy newis i fod yn un o gynrychiolwyr yr Undeb yn anrhydedd fawr gan fod y gynhadledd hon yn un arbennig; ynddi yr oedd dau fudiad, Cynghrair Eglwysi Diwygiedig y Byd (y *World Alliance of Reformed Churches* mae'r Undeb wedi bod yn perthyn iddo) a'r Cyngor Diwygiedig Eciwmenaidd (*Reformed Ecumenical Council*), yn uno i greu'r corff newydd**,** Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd**.** Cynnwys y corf newydd hwn 227 o enwadau ac undebau, sydd, gyda'i gilydd yn cynrychioli dros 80 miliwn o Gristnogion ar draws y byd.

Cynhaliwyd y gynhadledd yng Ngholeg Calfin ar gyrion Grand Rapids, Michigan. Yr oedd bron 1,000 o gynrychiolwyr o'r amrywiol eglwysi ac undebau o amgylch y byd, ynghyd ag arsylweddion a gwahoddedigion eraill, wedi teithio i'r gynhadledd ac fel sy'n digwydd mewn cynadleddau Cristnogol ymhen diwrnod teimlwn yn gwbl gartrefol yn eu mysg. Un o'r pethau a erys yn fy nghof am byth oedd bod yn rhan o gynulleidfa o tua 3,000 a ddaeth at ei gilydd, yn gynrychiolwyr cynhadledd ac aelodau eglwysi lleol, i addoli a chymuno ar y Sul cyntaf. Gwefr na ellir ei disgrifio.

Am naw diwrnod buom yn gweithio'n ddygn. Roedd pob diwrnod yn cychwyn am wyth y bore gydag Astudiaeth Feiblaidd ac yn gorffen am tua deg yr hwyr mewn addoliad. Heblaw am awr adeg cinio 'roedd yr amserlen yn llawn o gyfarfodydd busnes, gweithdai, cyfarfodydd rhanbarthol a sesiynau polisi. Profiad amheuthun iawn i mi oedd cael treulio dros wythnos yn swn y Gair heb ymyrraeth swydd a bywyd bob dydd. Gyda chynifer o gynadleddwyr 'roedd dros 50 o grwpiau astudiaethau wedi'u creu; gofynnwyd i mi arwain un o'r grwpiau hyn ac er yn betrus y sesiwn gyntaf, rhaid cyfaddef i mi gael bendith fawr o wneud. 'Roedd cael rhannu profiadau a dealltwriaeth o'r Ysgrythur gyda Christnogion o Efrog Newydd (UDA), Papua, Nigeria, De'r Affrig, India, Canada a Hwngari yn faeth i'r enaid. Ers dychwelyd rydym fel grwp wedi cadw mewn cysylltiad; bob wythnos bydd un ohonom yn anfon dau baragraff i weddill y grwp ar adnod neu ddarn o'r Ysgrythur ac yn ystod yr wythnos byddwn wedyn yn trafod y darn trwy ddulliau electronaidd. Rhyw fath o Fethania rhyngwladol!!!

Yn ystod y gynhadledd cadarnhawyd ymrwymiad y mudiad newydd i Gyffes Accra 2004, datganiad y bu i Undeb yr Annibynwyr ei chydnabod yn 2005 ac sydd â chyfiawnder yn hynod amlwg yn ei thestun. Cadarnhawyd ymrwymiad yr Undeb i'r Gyffes eleni eto yn ein Cyfarfodydd Blynyddol, a bydd yr Undeb yn mynd ati o ddifrif dros y blynyddoedd nesaf i weithredu rhai o'i goblygiadau. Cynhaliwyd sesiynau oedd yn ymwneud â materion economaidd, cymdeithasol a chyfreithiol, yn ogystal â'n stiwardiaeth o'r Cread. Fel cynrychiolwyr yr Undeb cafodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol a minnau gyfle i gyfrannu i weithdai ar bynciau fel tlodi, arweinyddiaeth, yr amgylchedd, defnyddio PowerPoint mewn addoliad a sefyllfa'r Dalit yn India; pynciau y mae'r Undeb wedi canolbwyntio arnynt mewn gweithgarwch a hyfforddiant yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cynhaliwyd rhyw 35 o wahanol weithdai yn ystod wythnos y gynhadledd.

Yn ystod y gynhadledd rhoddwyd lle amlwg i hanes a sefyllfa bresennol y brodorion Americanaidd, neu'r Indiaid. Yn dilyn croesawu'r cynrychiolwyr i Grand Rapids gan yr arweinwyr lleol, cafwyd anerchiad gwefreiddiol gan Richard Twiss o lwyth y Lakota/Sioux. Yn efengylydd brodorol, esboniodd i'w gynulleidfa ddealltwriaeth yr Indiaid o berthynas yr Efengyl â'u traddodiadau gan

atgoffa ei wrandawyr o ran y traddodiad Cristnogol yn narostyngiad ei bobl. Bu i ni wedyn adael y Coleg a theithio i ganol dinas Grand Rapids i fod yn rhan o gydgyfarfyddiad o'r llwythau Indiaidd lleol: pow-wow! Dyma'r tro cyntaf i gynrychiolwyr o gymaint o wahanol wledydd gael eu gwahodd, ac ystyriai'r Indiaid y digwyddiad fel y 'pow-wow' byd-eang cyntaf yn eu hanes! Cafwyd gwasanaeth o addoliad; bydd i mi gofio'r emyn *Pererin wyf* yn cael ei ganu yn un o'r ieithoedd brodorol i gyfeiliant drymiau'r Indiaid am hir.

Beth wnaeth y gynhadledd yn gwbl arbennig i mi oedd bod y trefnwyr wedi penderfynu y dylai addoliad fod yn sylfaenol a chanolog i'r holl weithgareddau yn Grand Rapids. Neilltuwyd 20% o'r amser ar gyfer moliant ac addoliad. Yn ychwanegol at yr oedfaon boreol ac oedfaon y Sul, yr oedd addoliad pellach yn cael ei gynnal yng Nghapel y Coleg bob gyda'r nos. I sicrhau amrywiaeth, rhoddwyd y cyfrifoldeb am gynnwys y gwasanaethau i bobl o wahanol gyfandiroedd, a thrwy hynny clyw-wyd nifer helaeth o ieithoedd, gan gynnwys y Gymraeg, a chafwyd emynau a chorawdau o wahanol ddiwylliannau a thraddodiadau. Cefais gyfle hefyd i ymweld ac ymuno mewn addoliad yn un o eglwysi Diwygiedig Grand Rapids. Gofynnwyd i mi gymryd rhan yn yr oedfa a chael cyfle i sôn wrth yr aelodau am Eglwys Minny Street a gwaith Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Bu'r Gweinidog a'i deulu yn garedig iawn a chefais wahoddiad i ginio Dydd Sul - cyw iâr wedi ei farbiciwio … beth arall!! Eglwys o 350 o aelodau oedd hon; dros yr wyth mlynedd ddiwethaf mae'r aelodau wedi ariannu adeiladu eglwys newydd - adeilad â chyntedd maint eglwys Minny Street, lle addoliad cyfoes, chwe ystafell ysgol Sul, dwy ystafell feithrin, swyddfeydd i'r Gweinidog, Ysgrifennydd a Thrysorydd, ystafell weddi a myfyrdod, cegin anferth gyda phob math o offer coginio, a neuadd sy'n medru bod yn sinema, cwrt chwaraeon a lle i wleddoedd priodas i fyny at 500! A'r cyfan, yn ôl yr aelodau, i fod yn offeryn i wneud gwaith Duw.

Braint fawr i mi, yng nghwmni'r Ysgrifennydd Cyffredinol, oedd cael cyfarfod a'r Parchedig Lala Rasendrahasina, Llywydd Eglwys Iesu Grist ym Madagascar. Yn dilyn yr helyntion gwleidyddol diweddar ar yr Ynys Fawr, bu'n rhaid i'r Parchedig Rasendrahasina droi'n alltud. Yn Grand Rapids yr oedd wedi cartrefu. Bu i'n Gweinidog anfon cyfarchion gweddigar o gariad a gofal i'r Parchedig Rasendrahasina a chefais innau gyfle i son am gysylltiad Eglwys Annibynnol Minny Street â'r Ynys Fawr. Bu'r Ysgrifennydd Cyffredinol ac yntau hefyd yn trafod perthynas Eglwys Madagascar ag Undeb yr Annibynwyr, ac ag eglwys Neuaddlwyd, Ceredigion, gan mai oddi yno yr aeth y cenhadon i Fadagascar ym 1818. Addawodd y ddau i'w gilydd y byddent yn cydweithio i adfer y cysylltiad rhwng eu gwledydd â'u heglwysi, ac y byddent yn gofyn i CWM am gymorth i drefnu dathliad yn 2018 i nodi glaniad y cenhadon.

Fe erys Grand Rapids 2010 yn fy meddwl am hir. Bu'n fodd i feithrin a chryfhau fy ffydd, yn wir bu'n foddion gras. Cafodd Geraint Tudur a minnau, ynghyd â Nan a Huw Powell-Davies oedd yn cynrychioli Eglwys Bresbyteraidd Cymru, gyfle i sôn am Gymru, ei heglwysi a'i sefyllfa. Fe'n hatgyfnerthwyd ni'n pedwar gan y sylweddoliad, er mor anodd yw'r sefyllfa yng Nghymru yn gyfredol, mae Eglwys Crist ar waith ac yn tyfu - ac mae hynny'n gynhyrfus. Dysgais innau am ffyrdd amgen o astudio'r Gair, o addoli ac o ymwneud â'm cyd-Gristnogion. Gobeithio, trwy gyfrannu at waith Undeb yr Annibynwyr ymysg ein heglwysi, daw ffordd i minnau rannu hyn er mwyn datblygu'n tystiolaeth yn ein gwlad ein hunain.

HefinJones